**TAFLEN BENDERFYNIAD BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**
**22 Hydref, 2021**

**DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** 22 Hydref, 2021

---

**PWNC**

EITEM 5: CYLLIDEB REFENIW A CHYFALAF 2021/22 – ADOLYGIAD AIL CHWARTER

---

**PENDERFYNIAD**

1. Derbyn a nodi adolygiad ail chwarter refeniw a chyfalaf Cyd-Bwyllgor y Bwrdd Uchelgais ar gyfer 2021/22.
2. Cydnabod derbyn a defnydd arfaethedig y £500,000 ar gyfer y grant Arloesi ar gyfer Datgarboneiddio drwy Ymchwil Busnesau i'r System Gyfan (WBRID), yn unol â'r llythyr dyfarnu cyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2021.
3. Cymeradwyo'r defnydd o gronfa wrth gefn benodol wedi'i chlustnodi i ddal cyfraniadau llog a dderbynnir gan y partneriaid, i'w gosod yn erbyn y gost fenthyca s ydd ei hangen i ariannu'r llif arian negyddol yn y dyfodol.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Nodwyd tanwariant a ragwelir o £183,178 yn erbyn y gyllideb refeniw yn 2021/22. Mynegwyd y gellir trosglwyddo unrhyw danwariant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol i'r gronfa wrth gefn sydd wedi'i chlustnodi.

Amlygwyd fod llithriad wedi bod ar y rhaglen gyfalaf sy'n golygu y bydd bellach yn rhedeg am dair blynedd ychwanegol hyd at 2028/29.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn.

---

Toriad Tudalen

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**TAFLEN BENDERFYNIAD BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**
**22 Hydref, 2021**

**DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** 22 Hydref, 2021

---

**PWNC**

EITEM 6: CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU – ADRODDIAD PERFFORMIAD CHWARTER 2

---

**PENDERFYNIAD**

Nodwyd Adroddiad Perfformiad Chwarter 2 a Chofrestr Risg y Portffolio wedi'i ddiweddaru.

Cymeradwywyd cyflwyno'r Adroddiad Perfformiad Chwarter 2 i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ynghyd â phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ym mis Rhagfyr 2020 bu i'r Bwrdd Uchelgais a Llywodraethau Cymru a'r DU gytuno ar Gytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.
Mae adrodd rheolaidd ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn.

---

Toriad Tudalen

**TAFLEN BENDERFYNIAD BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**
**22 Hydref, 2021**

**DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** 22 Hydref 2021

**PWNC**

EITEM 8: RHEOLI NEWID – PORTH CAERGYBI

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd y cais i newid ar gyfer Porth Caergybi ac yn hysbysu Llywodraeth Cymru a'r DU fel newid i sgôp prosiect Cynllun Twf.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ym mis Rhagfyr 2020, fe gytunwyd ar y Cytundeb Twf ar gyfer Cynllun Twf y Gogledd. Nodwyd fod gan Gynllun Twf Gogledd Cymru broses rheoli newid yn ei lle i sicrhau bod newid posib i sgôp y Cynllun Twf a'r prosiectau yn cael eu dal, eu hasesu a lle bo hynny'n berthnasol ei hystyried gan y Bwrdd.

Mynegwyd fod cais i newid yn ymwneud â phrosiect Porth Caergybi sydd yn un o chwe prosiect o fewn y rhaglen Tir ac Eiddo.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn.